# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 10 – Rhyddhadau cyllid eiddo arall*

### Rhan 2 - Y rhyddhadau

### Tir a werthir i sefydliad ariannol ac a lesir i berson

303. Mae'r darpariaethau ym mharagraff 2 yn ymdrin â sefyllfaoedd pan fo sefydliad ariannol:

- yn prynu prif fuddiant mewn tir oddi wrth berson ("P") neu oddi wrth sefydliad ariannol arall sydd wedi prynu'r buddiannau o dan y mathau o drefniadau a drafodir ym mharagraff 2(1) yr ymrwymir iddynt rhyngddo a P ("y trafodiad cyntaf");
- yn lesu'r tir yn ôl i P; ac
- yn ymrwymo i gytundeb lle bod gan P yr hawl i'w wneud yn ofynnol bod y sefydliad ariannol hwnnw yn trosglwyddo'r prif fuddiant yn ôl i P. Mae'r trafodiadau hynny wedi eu rhyddhau rhag treth trafodiadau tir, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y paragraff.

304. Mae rhyddhad ar gael hefyd pan fo sefydliad ariannol yn prynu prif fuddiant gan sefydliad ariannol arall sydd wedi ymrwymo i drefniadau o'r fath gyda pherson.